Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

# SUT Y GWNAETHOM YN **2018/2019**

# A BETH YDYN NI'N CYNLLUNIO I WNEUD YN **2020/2021**

Hydref 2019

# Cynnwys


Rhagair ....................................................................................................................................3

Cyflwyniad ................................................................................................................................ 4


Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ........................................................................5

Beth wnaethom y llynedd yn 2018/2019 a sut wnaethom berfformio? .............................................. 6

Beth wnawn yn 2019/2020 ..................................................................................................... 25

Ein themâu strategol a'n hamcanion arfaethedig ar gyfer 2020/2021 a thu hwnt........................ 27


Lleisiwch eich barn................................................................................................................. 37

# Rhagair



**Huw Jakeway QFSM**
Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru



**Y Cynghorydd Tudor Davies**
Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Croeso i'n diweddariad blynyddol, sy'n manylu ar rai o'r pethau a gyflawnwyd gennym yn 2018/2019. Byddwn yn cyflwyno ein themâu strategol a'n hamcanion arfaethedig ar gyfer 2020/2021 a thu hwnt ac yn egluro pam yr ydym wedi eu dewis.

Ar ddiwedd y ddogfen hon, gobeithiwn y byddwch chi'n lleisio eich barn am ein hamcanion drwy gwblhau'r arolwg.

# Cyflwyniad

Un o Wasanaethau Tân ac Achub Mwyaf y DU yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC), yn cwmpasu 10 Awdurdod Unedol. Rydym yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr a gyfansoddir o gymunedau gwledig, arfordirol a threfol.

Mae sawl fframwaith cyfreithiol yn amlinellu rheolau a chanllawiau ar ba wasanaethau y mae'n ofynnol i ni eu darparu. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004; Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016; Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLlCD). Mae'r rhain yn rhoi dyletswydd arnom i gadw pobl, cymunedau, busnesau ag amgylchedd De Cymru'n ddiogel rhag tanau a pheryglon eraill. Gwnawn hyn mor effeithiol ac effeithlon â phosib wrth anelu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Rydym yn datblygu gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion uniongyrchol ein cymuned a'r Gwasanaeth, wrth ddyrchafu cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae DLlCD yn nodi'r pum egwyddor ganlynol mewn perthynas â datblygu cynaliadwy y mae'n ofynnol i ni eu hystyried wrth wneud ein penderfyniadau:

- Pwysoli anghenion byrdymor ag anghenion hirdymor
- Buddsoddi adnoddau i atal problemau
- Defnyddio dull cyfannol, yn gwrthbwyso anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
- Cydweithredu ag eraill i helpu cwrdd ag amcanion lles
- Cynnwys eraill i adlewyrchu amrywiaeth ardal

**Saith nod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**



Cymru gydnerth



Cymru o gymunedau cydlynus



Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu



Cymru lewyrchus



Cymru iachach



Cymru sy'n fwy cyfartal



Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015


Rydym yn parhau i weithio gyda'r naw Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) o fewn ein hardal sydd â chyfrifoldeb dros baratoi a chyhoeddi cynlluniau lles lleol ac i adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd.


Rydym yn ymrwymedig i gwrdd â'n rhwymedigaethau yn unol â DLlCD. Byddwn bob amser yn ystyried goblygiadau hirdymor ein gweithredoedd a sut y gallwn fod yn aelodau effeithiol o'r naw BGC, er mwyn helpu pobl i deimlo'n ddiogel ac yn iach yn eu bywydau bob dydd.

Dengys ein gwaith gyda'r BGC ein hymroddiad i egwyddorion y DLlCD sef:


## "Dylai'r holl Wasanaethau Cyhoeddus ymddwyn mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod gofynion cyfredol yn cael eu diwallu, heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain"


Wrth ddatblygu ein themâu strategol a'n hamcanion, ystyriwn saith nod y DLlCD gan sicrhau ein bod ni'n cymhwyso'r pum ddull o weithredu sef - meddwl hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys. Rydym wedi nodi camau amrywiol a'r nodau hyn wrth ddiffinio ein wyth thema strategol ac amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn 2020/2021 a thu hwnt. Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth gyflawni'r rhain fel rhan o'n prosesau cyfredol.






















# Beth wnaethom y llynedd a sut oedd ein perfformiad?

## Crynodeb Digwyddiadau Blwyddyn Ariannol 2018/2019

Angen Gwella

Bron â chyrraedd y targed

yn llwyddo

| | Newid o'i gymharu â llynedd | yn erbyn y targed |
|---|---|---|

Yn ystod 2018/19 mynychwyd **17,915** o ddigwyddiadau

**↑3.8%** (17,919 o 17,243)

---

o blith y rhain roedd **38.5%** yn ymateb i danau

**↑19.1%** (6,898 o 5,793)

O ganlyniad i gynnydd yn nifer y tanau glaswellt. Yn ystod mis Gorffennaf 2018 cafwydd y nifer fwyaf o ddigwyddiadau tanau glaswellt o fewn mis ers 2010/2011. Cododd y nifer o danau ysbwriel o ganlyniad i weithgarwch yn Rhondda Cynon Taf.

Marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i:

- holl danau **+3%** (o 67 i 69)
- tanau damweiniol **-6%** (o 58 i 54)

---

ac roedd **43.8%** yn ymateb i alwadau ffug

**↑2.1%** (7,847 o 7,687)

O ganlyniad i alwadau didwyll mewn perthynas â thanau glaswellt.

Gwelwyd gostyngiad o ran galwadau ffug yn ymwneud ag offer, ond ni chyrhaeddwyd y targed blynyddol. Cafwyd gynnydd o ran y digwyddiadau nad oedd angen cymorth yn 2018/2019.

---

ac roedd **6.2%** yn ymateb i Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd (GTFf)

**↓2.3%** (1,112 o 1,138)

O ganlyniad i gynnydd o ran GTFf yn Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys mwy o ddatglymiadau, ni chyrhaeddwyd y targed blynyddol. Cafwyd gynnydd o ran y digwyddiadau nad oedd angen cymorth yn 2018/2019.

---

ac roedd **11.5%** yn ymateb i Alwadau Gwasanaethau Arbennig (GGA)*eraill

**↓21.4%** (2,062 o 2,625)

Roedd llai o ddigwyddiadau mynediad/dianc, ymatebwyr cyntaf meddygol a digwyddiadau rhyddhau o lifft wedi cyfrannu at ostyngiad o ran y nifer o ddigwyddiadau. Gwelwyd gynnydd o ran digwyddiadau bariatrig. Cafwyd GTADC fwy o alwadau i gynorthwyo asiantaethau eraill yn 2018/2019 na'r flwyddyn blaenorol.

*gan gynnwys achub anifeiliaid mawr, achub/gwacáu o ddŵr a'r holl digwyddiadau eraill a fynychwyd

# Beth wnaethom y llynedd a sut wnaethom berfformio?

| | De Cymru | | | | | Cymariaethau Blwyddyn Ariannol 2018/19 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | BA 16/17 | BA 17/18 | BA 18/19 | Targed BA 18/19 | Tuedd 3 mlynedd | Gogledd Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru | GT4* gwaethaf | GT4* orau | GT4* cyfartaledd |
| **Digwyddiadau a fynychwyd** | 17,315 | 17,243 | 17,915 | 16,449 | | 5,305 | 13,254 | 17,915 | 7,030 | 11,835 |
| **Tanau a fynychwyd** | 5,798 | 5,793 | 6,898 | 5,900 | | 2,281 | 3,374 | 6,898 | 2,092 | 3,840 |
| **Galwadau diangen a fynychwyd** | 8,191 | 7,687 | 7,847 | 7,499 | | 2,269 | 4,886 | 7,847 | 2,484 | 4,643 |
| **Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd** | 1,179 | 1,138 | 1,112 | 1,050 | | 220 | 870 | 1,208 | 323 | 662 |
| **Galwadau Gwasanaeth Arbennig a fynychwyd** | 2,147 | 2,625 | 2,058 | 2,000 | | 535 | 3,967 | 5,362 | 891 | 2,691 |
| **Marwolaethau ac Anafiadau o ganlyniad i'r holl danau** | 92 | 67 | 69 | 66 | | 48 | 61 | 104 | 17 | 62 |
| **Marwolaethau ac Anafiadau o ganlyniad i'r holl danau damweiniol** | 74 | 58 | 54 | 59 | | 28 | 51 | Heb ei adrodd | Heb ei adrodd | Heb ei adrodd |
| **Tanau mewn anheddau a gynhwysir yn yr ystafell lle tarddiant** | 84.9% | 83.7% | 82.5% | 85.0% | | 86.9% | 89.0% | Heb ei adrodd | Heb ei adrodd | Heb ei adrodd |

* Fel Gwasanaeth, mae'n bwysig i ni werthuso ein perfformiad, er mwyn sicrhau ein bod yn perfformio mor effeithiol â phosib. Gwnawn hyn, yn rhannol, wrth osod targedau blynyddol i'n hunain, yn cymharu ein perfformiad yn erbyn y Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru yn ogystal â Gwasanaethau'r Grŵp Teulu 4 (GT4); 18 Gwasanaethau Tân ac Achub o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n debyg i ni ar sail ffactorau fel poblogaeth, amddifadedd, proffiliau risg a nifer y digwyddiadau.

# Y llynedd, (2018/2019), roedd gennym chwech Cam Blaenoriaeth;

## Cam Blaenoriaeth 1.

Gweithio gydag eraill i ddiogelu ein cymunedau

Dywedom y byddem yn:

- Cyflwyno ymweliadau Diogel ac Iach i bob un o'r 10 awdurdod lleol
- Adnabod y rhai sy'n agored i niwed o fewn ein cymunedau drwy ddadansoddi tueddiadau galwadau
- Ystyried yr argymhellion a wnaethwyd yn sgil tân Tŵr Grenfell yn Llundain
- Gweithio gyda'n partneriaid i leihau nifer y tanau'n ymwneud ag ysbwriel a thanau gwyllt

## Cam Blaenoriaeth 2.

Datblygu dulliau mwy effeithlon ac effeithiol i ymgysylltu â'n cymunedau

Dywedom y byddem yn:

- Gwella ein hymgysylltu cymunedol yn y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd
- Lansio ein gwefan newydd a pharhau i'w ddatblygu drwy'r flwyddyn
- Targedu ein hymgyrchoedd atal ar gyfer grwpiau penodol
- Cynnal y cysylltiadau a wnaethwyd â'r cymunedau teithiol
- Cyflwyno digwyddiad diogelwch cymunedol yn ystod Her Sefydliad Achub y Deyrnas Unedig (SADU) ym mis Medi 2018
- Agor tair cangen Cadetiaid Tân newydd

## Cam Blaenoriaeth 3.

Denu, Datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu'n cymunedau ac yn darparu'n effeithiol

Dywedom y byddem yn:

- Cyflwyno'r Cynllun Gwirfoddoli er mwyn i'r gymuned gael cyfle i ymwneud â'n Gwasanaeth
- Cyflwyno negeseuon recriwtio fel rhan o'r gweithgareddau Diogelwch Cymunedol
- Parhau'r strategaeth recriwtio newydd ar gyfer y System Dyletswydd Ar Alwad (SDAA)
- Datblygu cynlluniau olynol i sicrhau ein bod ni'n denu, datblygu a chadw staff o safon dda

# Y llynedd, (2018/2019), roedd gennym chwech Cam Blaenoriaeth;

## Cam Blaenoriaeth 4.

Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd i sicrhau cynadliadwydd y dyfodol

Dywedom y byddem yn:

- Ymchwilio i ddefnyddio cerbydau trydan neu hybrid ar draws y Gwasanaeth
- Gosod goleuadau LED newydd ar draws ein holl safleoedd yn Ne Cymru i arbed ynni
- Adnewyddu nifer o unedau aerdymheru aneffeithiol yn ein hadeiladau
- Adeiladu cymhwyster Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol (HYTA) newydd i hyfforddi staff

## Cam Blaenoriaeth 5.

Defnyddio technoleg i allu cyflwyno gwasanaethau effeithlon a gwell

Dywedom y byddem yn:

- Datblygu ymgyrchoedd lleihau risg gyda thechnoleg rhith-wirionedd
- Cynnal peilot ar gyfer dyfeisiadau symudol i leihau papur wrth gynnal ymweliadau Diogel ac Iach
- Datblygu System Rheoli Gwybodaeth Diogelwch Tân Busnes a seilir ar risg
- Ceisio uwchraddio a dod o hyd i offer i wella trin â galwadau a danfon
- Archwilio i bob cyfle i ddefnyddio technoleg wrth gaffael offer newydd
- Datblygu'r System Reoli Fflyd, gan fwriadau bod yn ddi-bapur erbyn 2019
- Caffael offer diffodd tân newydd sy'n monitro lles a diogelwch

## Cam Blaenoriaeth 6.

Gweithio gyda byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi cymunedau lleol

Dywedom y byddem yn:

- Gweithredu a chefnogi camau a amlinellir o fewn cynlluniau BGC
- Ymgysylltu ag Adrannau Cynllunio a Rheoleiddio Adeiladu Awdurdodau Lleol
- Cryfhau ein partneriaethau gyda Heddlu De Cymru drwy'r Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd
- Parhau i weithio gydag asiantaethau i gyfeirio'r holl unigolion sy'n agored i niwed a nodir

# Beth wnaethom y llynedd (2018/2019) a sut wnaethom berfformio?

**Cam Blaenoriaeth 1.**
Gweithio gydag eraill i ddiogelu ein cymunedau

Dywedom y byddem yn:

- Cyflwyno ymweliadau Diogel ac Iach i bob un o'r 10 awdurdod lleol
- Adnabod y rhai sy'n agored i niwed o fewn ein cymunedau drwy ddadansoddi tueddiadau galwadau
- Ystyried yr argymhellion a wnaethwyd yn sgil tân Tŵr Grenfell yn Llundain
- Gweithio gyda'n partneriaid i leihau nifer y tanau'n ymwneud ag ysbwriel a thanau gwyllt

## Archwiliadau Uwch Diogelwch yn y Cartref

Cyflawnwyd ein cynllun i gyflwyno ymweliadau Diogel ac Iach ar draws ein hardaloedd awdurdod lleol gyda datblygiad archwiliad uwch diogelwch cartref. Ma hyn yn archwiliad mwy cynhwysfawr sydd yn nodi peryglon tân a risgiau eraill yn y cartref ill dau a all effeithio ar ddiogelwch pobl sy'n agored i niwed, er enghraifft drwy lithro, baglu a chwympo.

## Tanau Ysbwriel

Sefydlwyd gweithgor tanau ysbwriel i geisio deall risg ac achos tanau ysbwriel yn well. Newidiom y ffordd rydym yn casglu data ar danau ysbwriel i ddeall y risgiau cysylltiedig, y mathau o sbwriel dan sylw yn ogystal â ffynonellau posibl. Defnyddiwn y wybodaeth well hon i weithio gyda'n partneriaid i atal tanau ysbwriel.

## Adnabod grwpiau sy'n Agored i Niwed

Eleni, rydym wedi parhau i weithio gyda'n partneriaid megis Western Power Distribution i rannu gwybodaeth am yr unigolion hynny yn ein cymunedau sy'n agored i niwed, ac rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod ein gwasanaethau yn cael eu darparu i'r rhai mwyaf eu hangen.

## Y System Dyletswydd Ar Alwad (SDAA)

Cyflawnodd argaeledd cyfartalog injans SDAA y targed sef cynnydd o 5% ar gyfer y flwyddyn. Mae ein cyrsiau SDAA yn parhau i gael eu darparu a recriwtiwyd 111 o Ddiffoddwyr Tân ar Alwad i roi cymorth pellach. Fodd bynnag, gwelsom gyfradd trosiant staff o 20% ymhlith staff Ar Alwad yn ystod y flwyddyn, ystadegyn yr rydym yn gweithio'n ffyddiog i wella.

## Tîm Byw Mewn Tyrau Uchel

O ganlyniad i'r tân yn Nhŵr Grenfell, cyflwynom y Tîm Byw Mewn Tyrau Uchel sy'n gweithio ac yn ymgysylltu â pherchnogion adeiladau er mwyn sicrhau bod pob adeilad yn ein hardal yn bodloni'r safonau diogelwch perthnasol. Mae amryw o bwyllgorau'n parhau i ystyried argymhellion Adolygiad y Fonesig Hackett, a chynhelir cyfarfodydd parhaus o hyd gydag adrannau rheoli adeiladu yn ogystal â fforwm Adeiladau Uchel y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Mae'r Tîm Byw Mewn Tyrau Uchel yn parhau i ymgysylltu a gweithio gyda phartneriaid lleol ac yn darparu rhaglen o sesiynau dysgu gweithredol i staff o ardaloedd Caerdydd a Chasnewydd mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr. Yn ogystal â hyn, datblygwyd a gweithredwyd pecyn hyfforddi sgiliau Diogelwch Tân Busnes yn mynd i'r afael ag adeiladau tyrau uchel.

## Cydweithio o fewn y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd

Mae cydweithio rhwng ein swyddogion Gwylfa Rheoli Tân a Rheolwyr Digwyddiadau Heddlu De Cymru yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd yn digwydd bob dydd gan ymwneud â phob math o ddigwyddiadau a materion sy'n codi. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng timau rheoli'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân a bu digwyddiadau nodedig lle gweithiodd staff rheoli'r Gwasanaeth Tân a'r Heddlu gyda'i gilydd ar yr un digwyddiad i achub bywydau. Rydym yn parhau i rannu gwybodaeth gyda phartneriaid am unigolion a lleoliadau er mwyn lleihau risg.

## Hyfforddiant

Darparodd yr Adran Rheoli Risg Gweithredol (RhRG) hyfforddiant i'n staff gweithredol ar y setiau Offer Anadlu (OA) newydd ac mae ein Rheolwyr Gorsafoedd wedi cael eu hyfforddi i gynnal cyfweliadau Gwerthusiad Dysgu Tanau Damweinio (GDTD) wyneb yn wyneb. Mae'r prosiect GDTD, sy'n ceisio deall achos ac ymddygiad tân, yn dilyn prosiect LIFEBID a gyflawnwyd y llynedd. Mae ein staff gweithredol yn cynnal archwiliadau diogelwch yn y cartref yn dilyn holl danau mewn anheddau ac i'r anheddau cyfagos. Mae ein tîm Atal ac Amddiffyn yn y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd wedi cael hyfforddiant diogelu lefel tri.

## Ydych chi'n gwybod? Yn ogystal â hyn rydym wedi:

- Profi nifer o radios digidol Offer Anadlu (OA) gan fwriadu prynu'r rhain ar y cyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Cyflwyno offer newydd ar gyfer achub o'r dŵr
- Adolygu ac ailwampio ein polisi a'n gweithdrefnau Rheoli Parhad Busnes (RhPB) i gydymffurfio â'r safon newydd - profir pob cynllun o fewn cyfnod 12 mis

## Cam Blaenoriaeth 2.

Datblygu dulliau mwy effeithlon ac effeithiol i ymgysylltu â'n cymunedau

Dywedom y byddem yn:

- Gwella ein hymgysylltu cymunedol yn y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd
- Lansio ein gwefan newydd a pharhau i'w ddatblygu drwy'r flwyddyn
- Targedu ein hymgyrchoedd atal ar gyfer grwpiau penodol
- Cynnal y cysylltiadau a wnaethwyd â'r cymunedau teithiol
- Cyflwyno digwyddiad diogelwch cymunedol yn ystod Her Sefydliad Achub y Deyrnas Unedig (SADU) ym mis Medi 2018
- Agor tair cangen Cadetiaid Tân newydd

### Ymgysylltu â'r Gymuned yn y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd

Mae ein tîm Atal ac Amddiffyn yn y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd wedi derbyn hyfforddiant rhybuddio a hysbysu ar y cyfryngau cymdeithasol, atgyfeirio archwiliadau diogelwch cartref blaenoriaeth uchel, atgyfeiriadau diogelu yn ogystal â chyfathrebu â'r cyhoedd am ddigwyddiadau parhaus.

### Y Wefan

Ar ôl lansio ein gwefan ym mis Ebrill 2018, parhawyd i ychwanegu a gwella'r cynnwys. Cyflwynom ardal benodol i wirfoddolwyr er mwyn rhannu dogfennau pwysig â'n gwirfoddolwyr. Rydym wedi ychwanegu swyddogaeth mapio a digwyddiadau, gwella'r llyfrgell ddogfennau yn ogystal â chyflwyno gêm addysgol ar-lein yn gysylltiedig â diogelwch trydan.

### Parhau i gysylltu gyda'n cymunedau

Mae ein holl orsafoedd tân ac achub yn nodi eu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ar ffurf Cynlluniau Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC). Mae'r cynlluniau hyn yn caniatáu i'n gorsafoedd ganolbwyntio ar leihau risg sy'n benodol i'w cymunedau. Mae'r cynlluniau'n cynnwys materion fel tanau damweiniol mewn anheddau, cynnau tân yn fwriadol, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn ogystal â gweithgareddau ymgysylltu megis cynnal ymweliadau diogelwch yn y cartref a gweithio'n agos gyda grwpiau eraill gan gynnwys cymunedau teithiol i gadw pobl yn ddiogel.

### Grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu

Mae ein Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu (GCY) yn parhau i gyfarfod bob chwe wythnos ac yn cynnwys staff ein sefydliad sy'n cydweithio i gynllunio ein gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu'n effeithiol. Rhoddir pwyslais arbennig ar effeithlonrwydd, cynhwysiant a sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC), Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Safonau Cymraeg. Mae'r grŵp yn cydweithio i wneud yn siwr bod y Gwasanaeth yn mynychu prif ddigwyddiadau megis Pride Caerdydd, Penwythnos 999 a'r Gwŷl Caws Mawr Caerffili er mwyn cyflwyno nifer o brif negeseuon diogelwch allweddol.

## Ymgysylltu â staff

Cynhaliwyd arolwg staff ar draws y Gwasanaeth, i nodi dulliau llwyddiannus o gyfathrebu'n fewnol, gan y Rhwydwaith Ymgysylltu â Staff gyda'r tîm Cyfryngau a Chyfathrebu'n ymweld â gorsafoedd i annog staff i gymryd rhan.

## Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Rydym yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hysbysu ein cymunedau am risgiau parhaus, darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ac addysgu. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol o ran nifer ein dilynwyr ar Facebook, a gododd gan 1,610, gan wneud cyfanswm o 23,557 o ddilynwyr. Ein fideo mwyaf poblogaidd ar 'You Tube' oedd ein fideo gyrru'n ddiogel "Y 5 Angheuol" a gafodd 57,000 ymweliad.

## Canolfan Diogelwch Cymunedol

Agorwyd Canolfan Ymgysylltu Diogelwch Cymunedol Casnewydd ym mis Mai 2019. Mae hwn yn adeilad arloesol ac yn ganolfan arwyddocaol i GTADC a'i asiantaethau partner, gan ddarparu cartref cost-effeithiol a blaengar i Ymgysylltu Diogelwch Cymunedol cyfredol ac amlasiantaeth. Bydd y Ganolfan yn arfogi staff â'r dechnoleg a'r buddsoddiad cywir i ddarparu gwaith rhagorol gyda phartneriaid a gwasanaethau diogelwch cymunedol, gan alluogi partneriaid i rannu gwybodaeth yn hawdd yn ogystal â chefnogi gwaith cydweithredol ac ataliol. Mae'r cysyniad yn unol ag egwyddorion arweiniol y DLICD o ran partneriaeth a'r pum ffordd o weithio.



## Penwythnos Her Sefydliad Achub y Deyrnas Unedig (SADU)

Cynhaliwyd her SADU, Bae Caerdydd, 2018, ddiwedd mis Medi 2018. Roedd y penwythnos yn llwyddiant ysgubol gyda dros 600 o ddiffoddwyr tân yn profi eu sgiliau a mwy na 80 o bartneriaid yn darparu penwythnos llawn o weithgareddau hwyl ynghyd â gwybodaeth ymwybyddiaeth i'r teulu gyfan. Cafwyd heriau achub Trawma, Achub o'r Dŵr, Achub â Rhaff, Chwilio ac Achub Trefol a Datglymu, gyda'r cyfan yn arddangos sgiliau a thechnegau achub ar eu gorau. Roedd llawer o ddathlu gan fod tîm Datglymu Pen-y-bont ar Ogwr wedi cadw teitl pencampwyr y DU.

Llwyddiant ysgubol arall oedd y digwyddiad Diogelwch Cymunedol ac Ymgysylltu, a gynhaliwyd ochr yn ochr â Her SADU a ddaeth a 80 o bartneriaid cymunedol, sefydliadau a busnesau gyda'u gilydd. Llwyddodd y digwyddiad i hyrwyddo negeseuon diogelwch y Gwasanaeth Tân i dros 20,000 o bobl, gan godi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o wasanaethau rydym yn eu cynnig yn ogystal ag ymgysylltu â chymunedau mewn ffordd newydd a chyffrous, gyda hyn oll yn helpu i wneud cymunedau De Cymru yn lefydd diogelach i fyw, i weithio ynddynt ac i ymweld.

Yn ystod y digwyddiad hwn ymgysyllton gyda'r cyhoedd ynghlun a'n camau blaenoriaethol arfaethedig 2019/2020 gan ddefnyddio dulliau ymgysylltu arloesol, e.e. holiadur sgrin gyffwrdd ac iaith symlach, ac o ganlyniad cafwyd mwy na 400 o ymatebion.

Rhannom yr holl wersi a ddysgwyd yn ystod y Her gyda Wasanaeth Tân ac Achub Swydd Derby, a fydd yn cynnal Her SADU yn 2019.













## Cadetiaid Tân

Agorwyd cangen Cadetiaid Tân newydd yn Aberbargoed yn Ionawr 2019 ac mae gennym gynlluniau ar y gweill ar gyfer dwy gangen arall sef Caerdydd a Malpas yn Hydref 2019. Cangen Malpas fydd ein cangen gyntaf ar gyfer Cadetiaid iau rhwng 10-12 oed, a fydd yn newid i ddenu unigolion rhwng 8-12 oed yn y dyfodol.





## Ydych chi'n gwybod? Yn ogystal â hyn rydym wedi:

- Cymryd rhan mewn llawer o wahanol weithgareddau codi arian i sefydliadau elusennol. Mae'r rhain yn helpu i feithrin ymdeimlad cymunedol cryf ymysg ein staff gan olygu eu bod yn falch dros ben o'u cyfraniadau wrth wneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill. Y prif ddigwyddiadau oedd Cymru ar Glud - Breast Cancer Care Cymru; Taith 5 Cilomedr Sefydliad Twnel i'r Tyrau Stephen Siller; Taith beiciau blynyddol y Prif Swyddog Tân; Bridge2Brighton - Elusen y Diffoddwyr Tân, Tîm Evsy - taith feicio 100 milltir – Ymchwil Tiwmor Ymennydd Cymru.
- Cynllunio a pharatoi ar gyfer penwythnos o ymgysylltu â'r Gwasanaethau Brys ym mis Medi 2019, gyda'n partneriaid Heddlu De Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, i ymgorffori addysg, cyngor ac ymgynghori ar amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gennym i'r cyhoedd.

## Cam Blaenoriaeth 3.

Denu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu ein cymunedau ac yn darparu'n effeithiol

Dywedom y byddem yn:

- Cyflwyno'r Cynllun Gwirfoddoli er mwyn i'r gymuned gael cyfle i ymwneud â'n Gwasanaeth
- Cyflwyno negeseuon recriwtio fel rhan o'r gweithgareddau Diogelwch Cymunedol
- Parhau'r strategaeth recriwtio newydd ar gyfer y System Dyletswydd Ar Alwad (SDAA)
- Datblygu cynlluniau olynol i sicrhau ein bod ni'n denu, datblygu a chadw staff o safon dda

### Y Cynllun Gwirfoddoli

Ymgysylltwyd â'n carfan gyntaf o wirfoddolwyr ym mis Medi 2018 ac erbyn i'r flwyddyn ddod i ben ym mis Mawrth 2019, roedd gennym gyfanswm o 16 gwirfoddolwr. Mae'r gwirfoddolwyr hyn yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o wella'r gwasanaethau a ddarperir ac mae'r cymorth a ddarperir ganddynt yn helpu i feithrin cydberthnasau yn ein cymunedau. Mae'r gwirfoddolwyr hefyd yn cynyddu'r gwaith partneriaeth gyda Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent ill dau, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru , colegau a phrifysgolion lleol.

Mae rhai o'r gweithgareddau y mae gwirfoddolwyr wedi cymryd rhan ynddynt yn cynnwys SADU, digwyddiad Noson Tân Gwyllt yn yr Eglwys Newydd, ymarferion amrywiol Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd ar orsafoedd, digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned gyda'n Huned Troseddau Tân a gwasanaeth carolau'r Gwasanaethau Brys. Mae ein rhaglenni gwirfoddoli yn cael llwyddiant parhaus, a rydym yn awyddus i gynyddu y nifer o'n gwirfoddolwyr yn y dyfodol.

### Gweithgareddau Recriwtio a'r System Ddyletswydd Ar-Alwad (SDAA)

Mae'r Tîm SDAA yn parhau i gyflwyno ymgyrchoedd sy'n anelu at recriwtio, denu a chadw cadarnhaol gan gynnal digwyddiadau recriwtio gydol y flwyddyn. Cefnogwyd yr holl ddigwyddiadau hyn gan ein Tîm Cyfryngau a Chyfathrebu, a thargedwyd yr ymgyrch "Byddwch yn Fwy" ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Cafodd cynllun penodol ei ddatblygu a'i weithredu ar gyfer Brynbuga gan ddefnyddio'r radio, papurau newydd a gwahanol ddulliau hysbysebu. Cynlluniwyd digwyddiadau recriwtio ar gyfer 2019 ar ei hyd, a threfnwyd 10 digwyddiad mewn ardaloedd lle mae ceisiadau wedi bod yn isel yn y gorffennol.

Cynhaliwyd 10 o gyrsiau hyfforddi SDAA yn ystod y flwyddyn, gyda'r nod o leihau hyd y broses recriwtio, a chyflwynwyd newidiadau i gontractau cyflogaeth SDAA GTADC gan roi mwy o hyblygrwydd i'r Gwasanaeth a rôl Diffoddwyr Tân Ar Alwad. Cafodd 40 o Ddiffoddwyr Tân newydd eu recriwtio i'r System Dyletswydd Amser Cyflawn a chynhaliwyd tri cwrs hyfforddi yn ystod y flwyddyn.

Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2018/2019 cyflogwyd sawl prentis ar draws adrannau amrywiol, gan gynnwys Gweinyddiaeth, Adnoddau Dynol, Cyllid, TGCh a Fflyd.

## Strategaethau Adnoddau Dynol a Chynllunio Dilyniant

Ymgorfforwyd cynllunio gweithlu yn y Strategaeth Gwasanaethau Pobl ar gyfer 2019/2022 ynghŷd â chamau gweithredu yn ein cynllun cyflawni cynhwysol Gwasanaeth Tân ac Achub a weithredir dros dair blynedd.

Parheir i ddatblygu'r cynllun cyflawni er Lles Gweithwyr. Mae rhaglenni datblygu rheolwyr ar waith ar gyfer pob lefel o'r Gwasanaeth. Cyflwynwyd rhaglen arweinyddiaeth strategol drwy law Brifysgol De Cymru ar gyfer y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, gyda'r garfan gyntaf yn cychwyn yr Rhaglen Arloeswyr cyntaf i uwch reolwyr yn gynnar yn y flwyddyn ariannol, a gwblhawyd yn Ionawr 2019. Cyflwynwyd y Rhaglen Her ar gyfer rheolwyr canol i bum carfan o reolwyr.

Rydym yn parhau i ddatblygu a darparu hyfforddiant ar atal llifogydd ac achub o'r dŵr gan gyflawni ein dyletswydd statudol ddiweddaraf. Defnyddir cyfarpar newydd ac offer ychwanegol a brynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr hyfforddiant hwn. Adolygir a datblygir yr holl gyrsiau hyfforddi'n barhaus yn unol â Chanllawiau Gweithredol Cenedlaethol a newidiadau a diweddariadau'r Fanyleb Hyfforddiant Cenedlaethol, er mwyn sicrhau systemau gwaith diogel ar gyfer yr holl weithgareddau diffodd tân. Lleolir yr holl hyfforddiant i yrwyr yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon. Rydym yn cynnal effeithlonrwydd gweithredol ein sefydliad drwy adolygu a gwella ein hyfforddiant sgiliau craidd yn barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r hyfforddiant cychwynnol gorau posibl ar gyfer dyletswydd amser cyflawn, diffoddwyr tân wrth gefn ac diffoddwyr tân ategol. Mae ein cyfleusterau Rheoli Digwyddiadau yn cael eu diweddaru a'u gwella i sicrhau bod ein holl reolwyr tactegol yn cael eu hyfforddi gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf, er mwyn iddynt ddysgu a datblygu eu sgiliau a rheoli digwyddiadau gweithredol yn llwyddiannus ac yn ddiogel. Mae Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd yn parhau i ddatblygu ei statws fel Canolfan Gymeradwy Gwobrau Sgiliau er Cyfiawnder ac erbyn hyn mae wedi cael ei hachredu ar gyfer 11 o gymwysterau, gan gynnwys offer anadlu, rheoli digwyddiadau, sgiliau craidd, GTFf ac achub bariatrig.

## Ydych chi'n gwybod? Yn ogystal â hyn rydym wedi:

- Datblygu Cwrs Trawma Tân newydd a gymeradwywyd gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Adolygu proffiliau cyrsiau a chynlluniau gwersi Achub o'r Dŵr, a'u hasesu i sicrhau cynnwys priodol yn unol â chanllawiau Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (AABMG)
- Sefydlu darparwr achrediad Hyfforddwr Gweithredwyr Cychod Achub o Ddŵr Llifogydd (HGCADLl) i hyfforddwyr ym mis Mehefin 2019
- Penodi 12 o hyfforddwyr Gweithio'n Ddiogel ar Uchder
- Cynnal adolygiad o Ymateb Brys gyda'r Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd gyda staff, gan ofyn am eu hawgrymiadau ar gyfer gwella arferion gweithio
- Ystyried dichonoldeb rhaglen Prentisiaethau Diffoddwr Tân
- Rhannu canlyniadau ein hadroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl â'r staff yn ogystal â chreu rhwydwaith ymgysylltu â staff i ddatblygu'r meysydd datblygu a nodwyd o fewn yr adroddiad
- Treialu System Rheoli Dysgu (SRhD) electronig newydd i alluogi staff i ddefnyddio pob un o'n cyrsiau ar-lein presennol ar system well
- Treialu Adolygiad Datblygiad Personol (ADP) Pro fersiwn 5 gyda 410 o bersonél i werthuso a fyddai hyn yn addas i'n hanghenion yn y dyfodol
- Creu ystorfa o sesiynau adborth ar y cyd, yn dilyn digwyddiadau gwirioneddol ac efelychiadau gan ganiatáu mynediad llawn i staff er mwyn gwella'r broses o rannu gwybodaeth, dysgu a chyfathrebu

## Cam Blaenoriaeth 4.

Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd i sicrhau cynadliadwydd y dyfodol

Dywedom y byddem yn:

- Ymchwilio i ddefnyddio cerbydau trydan neu hybrid ar draws y Gwasanaeth
- Gosod goleuadau LED newydd ar draws ein holl safleoedd yn Ne Cymru i arbed ynni
- Adnewyddu nifer o unedau aerdymheru aneffeithiol yn ein hadeiladau
- Adeiladu cymhwyster Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol (HYTA) newydd i hyfforddi

### Cyfleuster Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol (HYTA) Porth Caerdydd

Pan fydd gwaith adeiladu cyfleuster Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol (HYTA) wedi cael ei gwblhau bydd modd cynnal hyfforddiant Offer Anadlu (OA) i ddiffoddwyr tân mewn sefyllfaoedd heriol. Rydym wedi ymdrechu i wneud yn siwr bod y gwaith adeiladu mor gynaliadwy â phosib a rydym wedi anelu i leihau'r effaith ar yr amgylchedd a'r gymuned leol.






Mae'r adeilad yn cynnwys system trin mwg (ocsidydd) ar y trydydd llawr i atal allyriadau heb eu trin rhag gadael yr adeilad. Mae'r ocsidydd yn sicrhau bod unrhyw fwg a gynhyrchir o fewn y cyfleuster yn cael ei ddal, ei dynnu a'i hidlo gan fodloni'r holl ofynion cyfreithiol ac amgylcheddol. Mae'r system echdynnu awyru yn cynnwys system glanhau aer, sy'n glanhau'r holl nwy carbonaidd a mwg, cyn ei ryddhau i'r atmosffer heb gynnwys unrhyw allyriadau. Mae gan yr adeilad systemau dŵr pwysedd uchel ac isel, sy'n golygu nad oes rhaid i ni ddefnyddio peiriannau tân sydd y tu allan i'r adeilad. Mae hyn yn lleihau'r effaith amgylcheddol o ran allyriadau yn ogystal â sŵn yn fwy byth.

## Yr Adran Fflyd ac Eiddo

Prynom injans tân newydd sy’n bodloni Safonau Allyriadau Euro Chwech - y safon uchaf sydd ar gael ar hyn o bryd. Rydym wedi ymchwilio cerbydau arddangos tanwydd amgen ac rydym wedi profi nifer o gerbydau. Cyflwynir cerbydau Gwasanaeth trydan yn ogystal â cherbydau cludo hybrid yn y dyfodol agos.

Wrth wella eiddo neu tra’n adeuladu, ystyrir cynaladwyedd adeiladau i’r dyfodol yn ogystal â meithrin barn gymesur ar faterion cynaladwyedd a godir.

Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Mae’r holl oleuadau yn ein Pencadlys erbyn hyn yn LED, gan ddefnyddio llai o drydan o lawer a darparu gwell olau
- Mae’r cam cyfredol o osod goleuadau LED mewn gorsafoedd wedi’i gwblhau
- Gosodwyd system aerdymheru newydd yn ein Pencadlys
- Mae systemau ar waith ar draws pob safle i gofnodi a monitro’r defnydd o nwy a thrydan yn fisol ac yn flynyddol ill dau. Mae’r data hwn yn llywio ein cynlluniau gweithredu a’n penderfyniadau mewn perthynas ag uwchraddio systemau trydan a nwy

## Cam Blaenoriaeth 5.

Defnyddio technoleg i allu cyflwyno gwasanaethau effeithlon a gwell

Dywedom y byddem yn:

- Datblygu ymgyrchoedd lleihau risg gyda thechnoleg rhith-wirionedd
- Cynnal peilot ar gyfer dyfeisiadau symudol i leihau papur wrth gynnal ymweliadau Diogel ac Iach
- Datblygu System Rheoli Gwybodaeth Diogelwch Tân Busnes a seilir ar risg
- Ceisio uwchraddio a dod o hyd i offer i wella trin â galwadau a danfon
- Archwilio i bob cyfle i ddefnyddio technoleg wrth gaffael offer newydd
- Datblygu'r System Reoli Fflyd, gan fwriadau bod yn ddi-bapur erbyn 2019
- Caffael offer diffodd tân newydd sy'n monitro lles a diogelwch

### Rhith-wirionedd

Rydym wedi parhau i ddefnyddio technoleg rithwir wrth gyflwyno negeseuon diogelwch yn ymwneud â Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd gan ddefnyddio rhaglen Domino. Gohiriwyd y defnydd cyffredinol o rith-wirionedd yn ein gweithgareddau lleihau risg tan 2019/2020.

### Partneriaeth â Gwasanaeth Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr

Rydym wedi parhau i archwilio i rannu technoleg â Gwasanaeth Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr gan gynnwys datblygu dull a seilir ar risg ar gyfer Diogelwch Tân Busnes drwy Offer Casglu Data Gwybodaeth Risg (OCDGR). Rydym hefyd wedi ystyried defnyddio eu fersiynau o'r System Cofnodi Digwyddiadau (SCD) a'u fersiwn o system gofnodi Diogel ac Iach. Mae'r ffrydiau gwaith hyn yn golygu bod oedi wrth gaffael dyfeisiau symudol i leihau fersiynau papur gan fod angen sicrhau bod yr holl ffurflenni ar gael ar unrhyw ddyfais symudol.

### Y System Rheoli Fflyd

Mae'r holl gardiau gwaith yn ein hadran Fflyd, sy'n cael eu defnyddio i nodi gwaith a wneir ar ein cerbydau, erbyn hyn yn cael eu mewnbynnu drwy'r dabled symudol i'n system rheoli fflyd sef Tranman. Bydd gwaith pellach yn digwydd i alluogi mewnbynnu'n rhestrau gwirio'n uniongyrchol i'r system hon yn y dyfodol agos.

### Offer

Mae adolygiad o Gyfarpar Amddiffynnol Personol Strwythurol (CAPS) yn parhau ac mae proses gaffael ar waith gan gynnwys defnyddwyr pen draw mewn dylunio a chreu injans ac offer tân gweithredol.

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)


Cwblhawyd y prosiect telathrebu symudol a chyflwynwyd ffonau clyfar newydd ar draws y Gwasanaeth. Prynwyd 75 o Derfynellau Data Symudol (TDS) newydd gyda dociau a ddefnyddir yn lle ein hoffer presennol ac a alluogir ar gyfer 4G.



Mae system ddesg gymorth newydd ar gael erbyn hyn y gall pob aelod o staff gofnodi galwadau neu geisiadau yn syth. Mae hon â manteision amryfal i ddefnyddwyr TGCh a defnyddwyr pen draw ill dau; mae'r Adran TGCh yn gallu ymateb, rheoli a chynllunio'n fwy effeithiol sydd wedi gwella rheolaeth dros ein asedau TGCh.

Mae defnyddwyr hefyd yn elwa o gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eu galwadau, drwy'r porth ar-lein yn ogystal â darparu diweddariadau neu gau galwadau eu hunain hyd yn oed.

Rydym yn parhau i geisio amnewid ein system radio Airwave ac rydym aros am adolygiad cenedlaethol o'r prosiect hwn.



## Systemau TGCh Adnoddau Dynol

Cafwyd cynnydd sylweddol o ran system rheoli presenoldeb CORE HR a chafwyd swyddogaeth ychwanegol yn dilyn lansio y fersiwn diweddaraf. Er bod oedi o ran proses recriwtio CORE HR, cwblhawyd y broses o gyflwyno Cyflogres a Threuliau CORE HR.

## Ydych chi'n gwybod? Yn ogystal â hyn rydym wedi:

- Parhau i weithio gyda Capita ein cyflenwr rheoli i ddiweddaru a gwella system Vision cyn cwblhau trosglwyddo yn 2019/2020
- Cwblhau prosiect Cau Datganiad Cyfrifon yn Gyflym gyda Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (SSCCC) ym mis Mai 2019

## Cam Blaenoriaeth 6.

Gweithio gyda byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi cymunedau lleol

Dywedom y byddem yn:

- Gweithredu a chefnogi camau a amlinellir o fewn cynlluniau BGC
- Ymgysylltu ag Adrannau Cynllunio a Rheoleiddio Adeiladu Awdurdodau Lleol
- Cryfhau ein partneriaethau gyda Heddlu De Cymru drwy'r Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd
- Parhau i weithio gydag asiantaethau i gyfeirio'r holl unigolion sy'n agored i niwed a nodir

### Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) – Mynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG)

Rydym yn rhagweithiol wrth gyfrannu at a chynnal camau Cynlluniau Llesiant y naw BGC wrth hyrwyddo'r canlyniadau yr hoffem eu cyflawni o ganlyniad i'n hymgysylltu â'r grwpiau hyn. Mae'r holl gynlluniau BGC wedi cael eu craffu gan ein pwyllgor Rheoli Perfformiad ac Archwilio Ariannol a'u cymeradwyo'n ffurfiol gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

Mae BGC yn datblygu gan nodi llawer o ffrydiau gwaith a chamau a ffurfio grwpiau gwaith i hyrwyddo cynnydd. Dengys yr enghreifftiau isod sut rydym wedi ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol yn ogystal â chryfhau ein perthynas gyda'r Heddlu, sy'n ein galluogi i gyfeirio unrhyw unigolion sy'n agored i niwed a nodir gennym wrth gyflawni'n gweithgarwch.

- Ffurfiodd staff GTADC, Heddlu Gwent a BGC Caerffili Ganolfan Ddiogelwch Cymunedol o fewn ardal Awdurdod Lleol Caerffili, ac maent yn cydweithio'n agos i ddatrys materion yn ymwneud ag YG
- Mae nifer o ffrydiau gwaith yn gysylltiedig â Mannau Gwyrdd, lle mae GTADC yn cydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, gwahanol sefydliadau rheoli tir a BGC Cwm Taf, Caerffili, Caerdydd, Casnewydd a Blaenau Gwent, gyda'r nod o leihau nifer y tanau gwyllt ledled ardal y Gwasanaeth
- Mae ymgyrchoedd eraill lle mae staff GTADC yn ymgysylltu'n weithredol â'n partneriaid BGC yn cynnwys hyrwyddo bwyta'n iach a gwella lefelau ffitrwydd i oresgyn gordewdra

### Adrannau Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu Awdurdodau Lleol

Rydym wedi cynnal dadansoddiad bwlch mewn perthynas â thanau mewn adeiladau sy'n cael eu dymchwel neu eu hadeiladu er mwyn sicrhau bod y canllawiau yn cydymffurfio â'r Canllawiau Gweithredu Cenedlaethol. Rydym hefyd wedi ffurfio cysylltiadau ag awdurdodau lleol e.e. Pen-y-bont ar Ogwr a Chasnewydd i weithio ar nodi materion posibl yn ymwneud â llosgi bwriadol ar gyfer adeiladau gwag neu adfeiliedig ac anniogel yn ardaloedd y gwahanol awdurdodau.

## Rhannu data

Diweddarwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Diogelwch Cymunedol yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018. Rydym yn cyfathrebu'n gyson gyda'n partneriaid o fewn y BGC ac mae cyfarfodydd yn darparu digon o gyfleoedd i gynnal deialog agored o ran gwella ein strategaethau Lleihau Risg. Dyrennir adnoddau addas er mwyn galluogi dull cydweithredol o ddatrys problemau o fewn ein cymunedau.



# Beth ydym yn gwneud yn 2019/2020

| Ein Themâu Strategol yw; | Bydd ein Camau Blaenoriaeth (CB) yn caniatáu i ni gyflawni hyn wrth; | I ddarparu hwn, rydym yn cynllunio i; |
| --- | --- | --- |
| **Lleihau Risg**  | CB1 - Sicrhau ein bod yn darparu ymateb effeithlon, effeithiol a pherthnasol i'n cymunedau.<br><br>CB2 - Weithio ag eraill i ddarparu addysg i'n cymunedau i atal niwed a diogelu rhag risg niwed. | • Wella'r ffordd rydym yn ymateb i danau ac argyfyngau eraill<br>• Gael y bobl, offer, cerbydau a'r sgiliau iawn yn barod ar yr adeg gywir ac yn y man cywir<br>• Ddatblygu ymweliadau Diogelwch yn y Cartref i gynnwys cymorth ehangach i bobl<br>• Fod yn fwy parod i ddelio â digwyddiadau sy'n cynnwys adeiladau lle gall uchder gael effaith ar wacáu a gweithio gyda pherchnogion a meddianwyr yr adeiladau hyn i leihau tebygrwydd ag effaith tân<br>• Gasglu gwybodaeth gan bobl a brofodd tân er mwyn arbed tanau yn y dyfodol<br>• Sicrhau bod gan ddiffoddwyr tân wybodaeth hanfodol ynghylch adeiladau a gosodiadau eraill sydd ar gael iddynt pan fyddant eu hangen |
| **Ymgysylltu a Chyfathrebu**  | CB3 - Ddatblygu dulliau effeithlon ac effeithiol o ymgysylltu a chyfathrebu â'n cymunedau i'w cynnwys hwy yn sut rydym yn darparu ein gwasanaethau). | • Adolygu sut mae Gorsafoedd Tân yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau eraill o gyfathrebu i ymgysylltu â'u cymunedau lleol<br>• Ddatblygu a dyrchafu cyfathrebiadau ac ymgysylltiad gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau y tu fewn a thu allan i'r Gwasanaeth<br>• Ddarparu digwyddiadau ymgysylltu cymunedol drwy law amrediad o weithgareddau |

| | | |
|---|---|---|
| **Maethu Adnoddau Cynaliadwy** | CB4 - Sicrhau ein bod yn denu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu ein cymunedau ac sy'n gallu darparu gwasanaethau effeithiol heddiw ac i'r dyfodol. | • Feddu ar ffocws clir ar iechyd a ffitrwydd ein staff drwy fecanweithiau cymorth priodol<br>• Gwblhau'r Cyfleuster Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd a sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion hyfforddi'r Gwasanaeth<br>• Sicrhau bod ein gweithgareddau hyfforddi'n cwrdd ag anghenion y Gwasanaeth<br>• Ddatblygu cwrs Gofal Brys ar Unwaith / trawma tân i gwrdd ag anghenion gweithredol |
| | CB5 - Leihau effaith ein Gwasanaeth ar yr amgylchedd i sicrhau cynaliadwyedd i'r dyfodol. | • Adolygu'r effaith y caiff ein gweithgareddau ar yr amgylchedd a gweithio i ddileu, lleihau a gostwng hyn<br>• Ddatblygu camau i leihau'r effaith y caiff defnyddio ein cerbydau ar yr amgylchedd |
| **Anwesu Technoleg** | CB6 - Sicrhau y defnyddiwn dechnoleg i alluogi darparu gwasanaethau gwell ac effeithlon. | • Sicrhau bod ein systemau TGCh yn effeithlon, yn effeithiol gan eu gwarchod rhag ymosodiadau seibir<br>• Ddatblygu cynlluniau i'w defnyddio mewn achos o fethiant systemau TGCh<br>• Sicrhau bydd dillad ac offer diffodd tân o'r ansawdd uchaf<br>• Ddefnyddio ein Systemau Rheoli Gwybodaeth Busnes fel hyb data canolog |
| **Cryfhau Partneriaethau** | CB7 - Weithio â'n Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus a'n partneriaid i gefnogi cymunedau lleol. | • Barhau i leihau risg wrth weithio'n effeithiol gyda'n Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn ein cymunedau lleol<br>• Gyflwyno, datblygu a monitro strategaeth i ostwng galwadau ffug a dderbyniwyd drwy law systemau larwm tân awtomatig |

# Ein themâu strategol a'n hamcanion arfaethedig ar gyfer 2020/2021 a thu hwnt

Mae ein gweledigaeth tymor hir o **"wneud De Cymru yn fwy diogel trwy leihau risg"** yn parhau.

Er mwyn cyflawni hyn, cyflwynir cyfres o wyth **Thema Strategol**. Bydd y themâu hyn a'u hamcanion cysylltiedig yn ein galluogi i barhau i ddarparu ymateb effeithiol i'n cymunedau yn ôl yr angen yn ogystal â darparu gwasanaeth yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 h.y. **"Dylai pob gwasanaeth cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion sy'n bodoli ar hyn o bryd yn cael eu diwallu, heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain".**

Hoffem gael adborth ar ein **Themâu Strategol** a'n **Hamcanion**.



| Thema Strategol Arfaethedig | Nodau' Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | | |
|---|---|---|---|
| **Eich Cadw chi'n Ddiogel** | Cymru gydnerth | Cymru o gymunedau cydlynus | |
| **Ymateb i'ch Argyfwng** | Cymru gydnerth | Cymru iachach | |
| **Defnyddio Technoleg yn Dda** | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | | |
| **Gweithio gyda'n Partneriaid** | Cymru o gymunedau cydlynus | | |
| **Ymgysylltu a Chyfathrebu** | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | |
| **Gwerthfawrogi Ein Pobl** | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru iachach | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| **Diogelu Ein Hamgylchfyd** | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | | |
| **Parhau i Weithio'n Effeithion** | Cymru lewyrchus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | |

Er mwyn cyflawni ein themâu rydym yn cynnig **Amcanion** a ddatblygwyd o ystyried ein hymrwymiad i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynaliadwyedd ym mhopeth a wnawn – gan gynnwys creu gweithle sy'n rhoi gwerth gwirioneddol ar amrywiaeth gweithwyr, yn ogystal â darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl i holl gymunedau De Cymru.

# Eich Cadw chi'n Ddiogel

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

## Mae hyn yn golygu...

Ein Gweledigaeth **"Gwneud De Cymru'n ddiogelach drwy leihau risg"**. Gwnawn hyn drwy ein gwasanaethau addysg, atal a diogelu. Bydd ein hamcanion o ran y thema hon yn canolbwyntio ar atal ac addysgu, gan ein bod yn credu y gall addysg atal tanau ac argyfyngau eraill.

## Ein Hamcanion...

- Lleihau effaith galwadau ffug ar ein hadnoddau
- Lleihau nifer y tanau domestig a deall yr ymddygiadau a'r hyn sy'n eu hachosi
- Lleihau nifer y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd
- Lleihau nifer y tanau bwriadol
- Gwella diogelwch mewn dŵr ac o'i gwmpas
- Gwella diogelwch tân mewn adeiladau yn ein cymunedau

## Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Mae cadw De Cymru yn ddiogel gyda chysylltiadau effeithiol yn hollbwysig i ni. Mae lleihau achosion o dân yn ein galluogi i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol, i gefnogi'r economy gwledig a lles y gymuned ar gyfer cenedlaethau presennol yn ogystal â rhai'r dyfodol.

## Dyma rai o'n cynlluniau...

- Bydd pob gorsaf yn parhau i ddatblygu Cynllun Rheoli Risg Cymunedol i fynd i'r afael ag anghenion a materion lleol
- Bydd gwaith ar brosiect **GDTD** - Gwerthuso Dysgu o ganlyniad i Danau Damweiniol yn parhau- er mwyn deall achos tân ac ymddygiad pobl ill dau yn well er mwyn datblygu a gwella ein harchwiliadau uwch Diogelwch Tân yn y Cartref yn y dyfodol
- Gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i leihau tanau ysbwriel
- Gweithredu ein mantra "Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif" drwy addysgu sefydliadau busnes a sector cyhoeddus ynghylch effaith Arwyddion Tân Diangen (ATD) ar ein hadnoddau, er mwyn sicrhau gostyngiad yn y nifer o GTA yr ydym yn mynychu

## Mae hyn yn golygu...

Rydym bob amser yn gwneud yn siwr ein bod ni'n ymateb effeithlon ac effeithiol i'n cymunedau yn ôl yr angen. Golyga hyn bod angen personél sy wedi'u hyfforddi'n dda arnom yn ogystal â'r offer diweddaraf posib i sicrhau na fydd diogelwch ein cymunedau byth yn cael ei beryglu. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein gweithwyr rheng flaen er mwyn sicrhau y gallant ymateb i'r ystod eang o ddigwyddiadau rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

## Ein Hamcanion...

- Ymateb yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch
- Gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein gwasanaeth System Ddyletswydd Ar-Alwad (SDAA) ar gael
- Hyfforddi ein diffoddwyr tân i ymateb i risgiau cyfredol a rhai yn y dyfodol o fewn ein cymunedau

## Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Mae ein Cynllun Strategol yn nodi ein hymateb ynghyd, â'r hyn y byddwn yn ei wneud yn barhaus i wella ein gweithredu. Yn ogystal â hyn mae angen i ni fod yn gydnerth i sicrhau bod y trefniadau priodol ar waith i ymateb i argyfyngau, wrth gynnal ein darpariaeth gwasanaethau craidd.

## Dyma rai o'n cynlluniau...

- Recriwtio'n amlach ar gyfer diffoddwyr tân System Ddyletswydd Gyflawn a SDAA ill dau
- Hyfforddi ein personél gweithredol i'r lefelau uchaf o ran sgiliau technegau diffodd tân diweddaraf yn y byd modern a digwyddiadau gwasanaeth eraill e.e. achub dŵr, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd
- Cael ein cyfleuster Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol yn weithredol a buddsoddi mewn offer anadlu newydd, Offer Amddiffyn Personol a'r Cyfarpar Tân diweddaraf ac arloesol
- Sicrhau bod gennym y bobl iawn, yn y lle cywir ar yr amser cywir wedi'u harfogi'n llawn i gyflawni eu gwaith

# Defnyddio Technoleg yn Dda

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Mae hyn yn golygu...

Defnyddio technoleg i wella ein prosesau a'n systemau fel eu bod yn barod i'r dyfodol, gan ein bod ni'n cydnabod bod hyn yn rhan hanfodol o welliant parhaus. Gan gynnwys technegau ac offer diffodd tân a'n systemau cymorth cefn swyddfa, rydym yn bwriadu eithafu datblygiadau technolegol i gefnogi a gwella'r gwasanaethau a ddarperir.

## Ein Hamcanion...

- Defnyddio'r dechnoleg a'r offer mwyaf priodol i wella ein gwasanaethau
- Adolygu safon a'r defnydd o dechnoleg ac offer ar draws y Gwasanaeth

## Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Bydd ein datblygiad technolegol yn gyfraniad cadarnhaol tuag at les cyffredinol ein staff a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Credwn hefyd y bydd defnydd effeithiol o TGCh ac offer yn sicrhau y gall adnoddau gweithredol ymateb orau i ddigwyddiadau. Defnyddiwn Ddatganiad Polisi a Gweithdrefnau Caffael Cymru 2015 wrth brynu gwasanaethau a chyflenwadau, i sicrhau prosesau teg a thryloyw i gefnogi busnesau lleol a chyfrannu at ffyniant yr economi leol.

## Dyma rai o'n cynlluniau...

- Buddsoddi mewn mwy o derfynellau data symudol ar orsafoedd ac mewn injans tân, a fydd yn cyflymu ein hymateb i ddigwyddiadau
- Defnyddio ein System Gwybodaeth Rheoli Busnes i fabwysiadu ymagwedd yn seiliedig ar risg ar gyfer ddiogelwch yn ein cymunedau
- Buddsoddi mewn systemau cyfathrebu radio gwell yn ogystal â chydweithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i gyflwyno hyn yn gost effeithiol

## Mae hyn yn golygu...

Rydym wedi cydweithio gydag asiantaethau eraill ers tro i gyflawni gwelliannau mesuradwy a sicrhau gwell effeithlonrwydd ac ymfalchïwn yn hynny. Bydd hyn yn cynnwys cyfrannu at flaenoriaethau lleol a helpu i wella lles cymunedol.

## Ein Hamcanion...

- Gweithio gyda'n BGC i gefnogi'n cymunedau
- Gweithio gyda'n partneriaid i gyflawni ein gwasanaethau pan fo eu hangen
- Adolygu a gwerthuso ein partneriaethau cyfredol

## Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Rydym yn cydnabod manteision gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill er mwyn darparu gwasanaethau gwerth gorau i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ar y cyd. Mae rhannu gwybodaeth a sgiliau wrth wraidd dyfodol ein gwasanaeth. Mae trefniadau arloesol gyda'n partneriaid lleol a gwasanaethau tân ac achub eraill eisoes ar waith, ond rydym yn anelu at ehangu'r cysylltiadau hyn a hefyd nodi cyfleoedd eraill i weithio ar y cyd. Bydd gweithio mewn partneriaeth yn ein galluogi i rannu'r hyn a wnawn a sut y cyflwynir hynny, ac yn ogystal â hyn gallwn nodi cyfleoedd ychwanegol gan eraill ar gyfer gwella, gan sicrhau gwasanaeth mwy effeithlon a chost effeithiol i'n cymunedau.

## Dyma rai o'n cynlluniau...

- Gweithredu ein Strategaeth Fryniau Iach - dull rheoli tir ar gyfer tanau gwyllt a thanau glaswellt, gan ddefnyddio cyllid Lywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i leihau'r risg o dân ar lethrau ein mynyddoedd ac o fewn ein hardaloedd gwledig
- Nodi niferoedd a lleoliadau eiddo segur ac adfeiliedig o fewn pob ardal awdurdod lleol i leihau'r perygl o dân bwriadol a difrod i'r eiddo hwn
- Bod yn aelod gweithgar o bob un o'r naw BGC yn Ne Cymru ac arwain ar rai gweithgareddau, er enghraifft prosiectau rheoli tir i leihau tanau glaswellt a thanau gwyllt
- Chwilio am gyfleoedd i gydweithio â phartneriaid newydd a gwella ein dull o ddarparu gwasanaethau gyda'n partneriaid pressennol

## Mae hyn yn golygu...

Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'n staff, ein rhanddeiliaid, ein cymunedau a'n partneriaid drwy feithrin agwedd gadarnhaol o ran cyfathrebu. Mae cyfathrebu yn brif flaenoriaeth mewn sicrhau bod ein staff, ein rhanddeiliaid, ein cymunedau a'n partneriaid yn ymwybodol o'r gwaith rydym yn ei wneud, yr heriau rydym yn eu hwynebu a gallant fod yn rhan o lunio ein gwasanaethau yn y dyfodol. Credwn y gallwn gyflwyno ein negeseuon allweddol yn effeithiol drwy sicrhau ffocws parhaus ar addysg, ymgysylltu a chyfathrebu.

## Ein Hamcanion...

- Rhannu canlyniadau ein hadroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl â'r staff
- Cynnwys ein cymunedau a gwneud yn siwr bod ganddynt lais yn yr hyn a wnawn
- Helpu i gadw'n cymunedau'n ddiogel trwy addysg diogelwch a mynychu digwyddiadau yn y gymuned

## Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Gall weithio cydlynol fel rhan o gymuned â chysylltiadau da ddarparu gwelliant ehangach na gweithio ar ben eich hun, gan sicrhau felly fwy o gyfleoedd i gadw preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr De Cymru yn ddiogelach. Bydd hyn yn fanteisiol i'n cymunedau yn ogystal â chyfrannu'n sylweddol at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ill dau.

## Dyma rai o'n cynlluniau...

- Gofyn i'n staff am eu syniadau er mwyn gwneud ein Gwasanaeth yn lle gwell fyth i weithio ynddo a'u hannog i helpu i lunio ein cynlluniau a'n gweithgareddau ar gyfer y dyfodol
- Buddsoddi mewn amrywiaeth o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a'u rheoli er mwyn i bobl leol allu siarad â ni am faterion sy'n bwysig iddynt a lleisio barn am ddarpariaeth ein gwasanaethau ill dau
- Cynnal diwrnodau agored a digwyddiadau mewn Gorsafoedd, i staff gymryd rhan yn eu cymuned leol - codi arian ar gyfer elusennau lleol a darparu gwybodaeth bwysig i gefnogi diogelwch, lles ac iechyd dinasyddion

## Mae hyn yn golygu...

Dylai ein gweithlu gynrychioli'r cymunedau a wasanaethir gennym, drwy fod yn amrywiol a gwerthfawrogi pawb yn gyfartal, a dylid darparu cyfleoedd datblygu yn ogystal â chyfleoedd proffesiynol i staff. Y flwyddyn nesaf, rydym yn cynnig y dylai un amcan ganolbwyntio ar ein staff. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu gweithlu amrywiol a chynhwysol, gyda phob un o'r staff yn cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal, ac yn gynaliadwy o ran gwasanaethu ein cymunedau. Mae cyflwyno'r Cynllun Gwasanaeth Tân Cynhwysol yn crynhoi'r gwelliannau o ran y cynhwysiad, y diwylliant a'r ymddygiad i wneud yn siwr bod gwelliannau ystyrlon yn arwain at ganlyniadau gwirioneddol i'r staff cyfredol a'r rhai'r dyfodol yn ogystal â darpar ddefnyddwyr ein gwasanaethau.

Mae datblygiadau pellach ar gyfer ein Rhwydwaith Ymgysylltu â Staff, megis sefydlu fforwm ar-lein, yn ein galluogi i ddeall ein gweithwyr gan ganiatáu iddynt gyfrannu'n fwy effeithiol at yr hyn a wanwn.

## Ein Hamcanion...

- Denu gweithlu sy'n adlewyrchu ac yn cynrychioli ein cymunedau
- Datblygu ein pobl drwy adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu
- Cefnogi ein pobl fel y byddant yn teimlo'n dda, yn iach ac yn hapus yn y gweithle

## Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd diwylliant ein Gwasanaeth. Byddwn yn darparu llwybrau clir i hyrwyddo cynnydd ac amgylchedd gwaith iach sy'n ystyriol o ddiogelwch a lles ein staff, gan weithredu arferion gwaith sy'n cynnal ffordd iach o fyw a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ill dau.

## Dyma rai o'n cynlluniau...

- Amrywiaeth o wahanol ddigwyddiadau Recriwtio Gweithredu Cadarnhaol i annog ymgeiswyr i ymgeisio i ymuno â ni o blith grwpiau a dangynrychiolir yn ein gweithlu ar hyn o bryd i ymuno â ni e.e. menywod a lleiafrifoedd du a lleiafrifoedd ethnig. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys; Sesiynau Ffitrwydd Diffoddwyr Tân i ddynion a menywod, menywod yn unig a'r rhai rhwng 18 a 24 oed
- Datblygu llwybrau dysgu a datblygu newydd i staff gweithredol a chynorthwyol
- Mae lles corfforol, meddyliol ac iechyd ein staff eisoes yn bwysig iawn i ni ac er mwyn gefnogi hyn ymhellach byddwn yn ceisio ennill y Wobr Safon Iechyd Corfforaethol
- Cynhelir sesiynau Cadw'n Heini i Ddiffodd Tân mewn Gorsafoedd er mwyn cynnal y safonau uchaf o allu corfforol a pharodrwydd gweithredol ymysg ein gweithlu diffoddwyr tân

## Mae hyn yn golygu...

Rydym yn gwybod bod ein gweithgareddau yn effeithio ar yr amgylchedd lleol a'r amgylchedd byd-eang ill dau ac rydym wedi ymrwymo i leihau unrhyw effeithiau anffafriol. Ar gyfer y flwyddyn nesaf, rydym yn cynnig amcanion sy'n canolbwyntio ar leihau ein heffaith amgylcheddol. Rydym wedi ymrwymo i groesawu egni adnewyddadwy i gefnogi cynaliadwyedd a nodau amgylcheddol y DLICD.

## Ein Hamcanion...

- Lleihau ein defnydd o ddeunyddiau un defnydd
- Archwilio i ddefnyddio cerbydau trydan
- Lleihau maint yr ynni rydym yn ei ddefnyddio â'n hôl troed carbon ill dau
- Ystyried effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchfyd

## Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Rydym yn credu mewn buddsoddi hirdymor mewn systemau sy'n lleihau gwastraff a byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd i wneud GTADC yn arweinydd mewn cynaliadwyedd. Bydd yr holl benderfyniadau a'r cynlluniau a wnawn yn ystyried egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac yn rhan annatod o DLICD.

## Dyma rai o'n cynlluniau...

- Buddsoddi i gynnal 22 o gerbydau fflyd trydan i'r Gwasanaeth
- Gwella ein hystafelloedd sychu dillad gan ystyried y dechnoleg ddiweddaraf i leihau defnydd trydanol a chostau cysylltiedig
- Monitro ein defnydd o ynni ar orsafoedd a phob safle arall, gan gynnwys ac uwchraddio bwyleri
- Archwilio i ddefnyddio galwadau gynhadledd yn fwyfwy i leihau teithio i fannau cyfarfod
- Newid i gwpanau bio-diraddiadwy ar gyfer gweinyddwyr dŵr

## Mae hyn yn golygu...

Ein nod bob amser yw dangos gwerth am arian yn ogystal â darparu ein gwasanaethau am y gost isaf bosibl i'r safon uchaf posibl. Wrth ystyried faint i'w wario, ein blaenoriaeth barhaus yw'r angen i wella'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau ac yn lleihau risg yng nghymunedau De Cymru. Byddwn yn gweithio ar gynllunio tymor canolig a thymor hir, a hynny yn erbyn her ariannol barhaus a phroffiliau risg newidiol ein cymunedau. Byddwn yn cefnogi Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu swyddogaethau arwain a chraffu yn effeithiol.

## Ein Hamcanion...

- Bod yn glir ac yn atebol i'r cyhoedd
- Eithafu gwerth am arian wrth wella'n gwasanaeth

## Rydym yn bwriadu gwneud hyn achos...

Rydym yn cydnabod mai ein staff yw ein hased mwyaf gwerthfawr. Fodd bynnag, er mwyn i'n staff fod yn effeithiol, mae angen y cyfleusterau a'r adnoddau gorau posib arnynt. Rhaid bod ein penderfyniadau yn ymwneud â gwariant ar asedau ffisegol yn effeithlon ac yn effeithiol i gefnogi ac ymateb i'n darpariaeth gwasanaethau. Bydd ein Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad yn craffu'r penderfyniadau hyn a'n nod yw sicrhau ein bod yn darparu gwerth am arian ar gyfer y gwasanaeth a ddarparwn i gyhoedd De Cymru.

## Dyma rai o'n cynlluniau...

- Archwilio i gydleoli safleoedd ac ystadau a rennir i leihau costau a gwella gwasanaethau e.e. mae ein gorsaf yn y Barri wedi dod yn gartref i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn ddiweddar
- Cydweithio â'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub eraill yng Nghymru (GTA Canolbarth a Gorllewin Cymru a GTA Gogledd Cymru) wrth brynu offer a chynnyrch i arbed costau
- Cynhyrchu gwybodaeth hawdd ei chyrchu i'r cyhoedd ar ein gwefan o gyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub a phwyllgorau perthnasol; er enghraifft agendâu, adroddiadau, cofnodion a cheisiadau rhyddid gwybodaeth

# Yr Iaith Gymraeg

Rydym yn awyddus i wasanaethu'n effeithiol y rheini sy'n dewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyflwyno hysbysiad cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru. Cyhoeddir yr Hysbysiad Cydymffurfio hwn ar ein gwefan a rhoddir manylion am ba wasanaethau y gall dinasyddion ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg. Rydym yn ceisio ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr er mwyn gwella safon gyffredinol y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Gymraeg.

# Lleisiwch eich barn

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd ystyrlon o wella ein gwasanaethau a chyflwyno gwybodaeth. Er mwyn gwneud hyn rydym am sicrhau bod eich barn yn cael ei hystyried wrth gyflawni ein gweithgareddau a chyflwyno gwybodaeth i chi.

Yn benodol, croesawn eich sylwadau a/neu gwestiynau am ein hamcanion arfaethedig [www.surveymonkey.co.uk/r/T2GSVG6.](www.surveymonkey.co.uk/r/T2GSVG6)

# Ysgrifennwch atom

Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX

# Galwch ni

01443 232000

# Ewch i'n Gwefan

www.decymru-tan.gov.uk

# Fersiynau amgen

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn iaith neu fformat amgen megis print mawr, Braille neu ar ffurf awdio, cysylltwch â ni.

@TanDeCymru

@TanDeCymru

@sw_fire_and_rescue

Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg – byddwn yn ymateb yn gydradd yn y ddwy iaith ac yn ateb yn eich iaith ddewisol heb oedi.

# Gwirfoddolwyr

Ma Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru am recriwtio unigolion o gefndiroedd amrywiol gyda sgiliau a galluoedd gwahanol, sy'n cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Disgwylir i wirfoddolwyr weithio gyda'n timau arbenigol i gyflwyno negeseuon allweddol y Gwasanaeth. Mae'r profiad hwn yn rhoi boddhad, gan roi'r cyfle i gwrdd â phobl newydd ac ymgymryd â heriau newydd. Bydd eich gwybodaeth am y gymuned leol yn gwella ac yn ategu rôl y Gwasanaeth wrth ddiwallu anghenion ein cymunedau. Gallwch chi helpu i wneud y De Cymru yn ddiogelach i bawb.

Y cyfan rydym yn ei ofyn yw eich bod chi ar gael am leiafswm o wyth awr y mis, ac yn barod i helpu am leiafswm o chwe mis. Bydd y rhan fwyaf o gyfleoedd gwirfoddoli cychwynnol yn cael eu cynnal yn ystod oriau gwaith arferol, o Ddydd Llun i Ddydd Gwener, gan gynnwys rhai gyda'r nos ac ar benwythnosau. Bydd hyn yn newid wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen ac wrth i fwy o gyfleoedd godi.

I gael gwybod mwy am rolau gwirfoddoli, cliciwch ar y cyfleoedd rôl isod:

**https://www.decymru-tan.gov.uk/rol-diffoddwr-tan/cynllun-gwirfoddolwyr/**



**Gwasanaeth Tân ac Achub**
De Cymru

South Wales
**Fire and Rescue Service**